Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 08-09-20 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, Geraint Owen, Arthur Williams, Gwenan Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | John Lloyd Williams ac Austin Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (07/07/20).

   Cynigwyd cofnodion 07/07/20 yn gywir gan Cyng Geraint ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Swydd Wag ar y Cyngor:**

     Angen rhoi rhybudd am y swydd o gwmpas y pentref, ar hysbysfyrddau ac ar y safle we a Facebook.

   - **Asesiad Risg:**

     Penderfynwyd ei yrru allan eto i'r Cynghorwyr a'i roi fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

   - **Baw Ci:**

     Cwn yn dal i faeddu yn y cae chwarae.  Y Clerc i gysylltu gyda CBSC i ofyn am arwyddion mwy sy'n dangos y dirwy y glir.

- **Llwybrau:**

  Ar ol trafodaeth penderfynwyd roi fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

- **Coeden yn y Fynwent:**

  Aelod o'r cyhoedd yn poeni am wreiddiau coeden onnen sydd mewn rhan o'r fynwent sy'n eiddo i'r Cyngor.

  Cyng John Lloyd i ofyn i Keith Webber am bris i dorri'r goeden.

- **Costau'r Ysgol – COVID-19:**

  Cafwyd trafodaeth a penderfynwyd rhoi swm o arian i'r ysgol tuag at y costau yma. Cyng Geraint yn cynnig £150, Cyng Arthur yn eilio, pawb yn cytuno.

  Cyng John Emlyn i gael sgwrs gyda pennaeth yr ysgol i weld be gymorth mae nhw ei angen ar gyfer y dyfodol.

6. **CYNLLUNIO**

- Cyfeirnod: 0/47462
  Ymgeisydd: Professor C Williams
  Cynllun: Cais am estyniad ac addasiadau mewnol
  Safle: Drovers Cottage, Ffordd Pennant, Eglwysbach LL28 5UN

  Dim gwrthwynebiad ond adroddiad ystlum angen ei gwblhau.

- Cyfeirnod: 0/47600
  Ymgeisydd: Bethan Jones
  Cynllun: Adeiladu annedd gyda ffrâm bren, safon ty goddefol gyda 2-3 llofft ar dir gwag
  Safle: 36 Heol Carrog, Eglwysbach LL28 5AQ

  Wedi ei dynnu yn ôl.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £4,313.16 (angen talu £36.00 Neuadd Aberconwy)
Angladdau - £245.20
Cadw - £2,078.11

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00 (talwyd 01/09/20).

**Angladdau:**

- Arwel Williams (torri glaswellt) - £345.00 (talwyd 28/08/20 ar ôl trafodaeth gyda'r Cadeirydd 28/08/20).

Trosglwyddodd y Clerc £500 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif angladdau ar ôl trafodaeth gyda'r Cadeirydd 28/08/20.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC – 'Sport Wales Be Active Fund - Prepare & Protect':**

  Noder er gwybodaeth.

- ***E-Bost: CBSC* - Arolwg Gweledigaeth Wledig ROBUST:**

  Cyng John Emlyn am ei lenwi.

- **E-bost: CBSC - Ail Agor Canolfannau Cymunedol:**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Cyllid i lanhau cysgodfannau bysiau a mesurau cadw pellter cymdeithasol ar hyd Sir Conwy:**

  Y Clerc i ymateb gyda'r gwybodaeth canlynol:
  Y Graig – cysgodfan cerrig
  Ganol y Pentref – cysgodfan cerrig
  Hen Efail – cysgodfan cerrig
  Ffordd Gyffylog – cysgodfan metal

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Ailagor meysydd chwarae ac ardaloedd chwarae awyr agored i blant; coronafeirws (COVID-19):**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Robin Millar AS – Aberconwy – mynychu cyfarfod:**

  Y Clerc i ymateb yn ôl. Gohirio cyfarfod nes bod cyfyngiadau'n cael eu codi a cyfarfod yn medru cael ei gynnal yn y neuadd gyda aelodau o'r gymuned.

- **E-Bost: Trafnidiaeth Cymru - Rheilffordd Dyffryn Conwy:**

  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Sgip – y Clerc i archebu sgip a gadael i Cyng Ceri wybod iddi gael ei hysbysebu;

- Awdit 2019/20 – trefnu cyfarfod cyn diwedd mis Medi os yn bosib;
- Afon tu ol i’r Efail tuag at Henblas tyfiant tu ol i’r tai;
- Gohebiaeth gan aelod o’r gymuned - trafod yn y cyfarfod nesaf;
- Mae twmpathau beic yn y cae chwarae wedi erydu’n fawr. Y Clerc i gysylltu gyda’r Swyddog Cae Chwarae i gyfarfod gyda Cynghorydd i weld beth sydd angen ei wneud;
- Trafodaeth am y fan symudol Swyddfa Bost. Y Clerc i gysylltu i weld os ydy’r gwasanaeth yn medru parhau. Cyng John Emlyn i gysylltu gyda CBSC i ofyn am band eang ffibr;
- Ffordd Ty Gwyn, Graig a Ffordd Cae Forys yn cau o’r 14 Medi. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda ERF;
- Llongyfarchiadau i Cyng Austin ar ei ddewis yn arweinydd i Plaid Cymru CBSC.

10.**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

06/10/20
03/11/20
01/12/20

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 o’r gloch.